



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Fframwaith Adrodd
Blynyddol y Cyngor

**Adborth ac
Argymhellion o'r
Ymgynghoriad
2014 / 2015**


CRYNODEB O'R ADBORTH I'R YMGYNGHORIAD

Fel rhan o broses cynllunio ymgynghoriad 2014 / 2015, cynhaliwyd adolygiad o ddulliau a ddefnyddiwyd yn flaenorol a'u heffeithiolrwydd. Cytunwyd bod angen newid dull oherwydd bod cyfradd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Blynyddol yn hynod o isel. Yn ogystal â'r dulliau a ddefnyddiwyd yn draddodiadol, megis y wefan, poster, datganiadau i'r wasg ac ati (pob un wedi'i adnewyddu) – rydym hefyd wedi cynnal gweithdai eleni gyda nifer o grwpiau allweddol er mwyn casglu'u barn ar gywirdeb y cynnwys a rhwyddineb gweld yr Adroddiad Blynyddol. Bu'r dull diwygiedig yn llwyddiannus ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn faint o adborth rydym wedi'i gael a'i ystod.

Yn ogystal â'r adborth a gafwyd gan bobl ifanc trwy holiaduron; cynhaliwyd ymarfer arall gan Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Merthyr Tudful a roddodd ystod o wybodaeth ychwanegol i ni.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd mor frwd.

Fel y gwelir o'r siart isod, roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion (82.5%). O'r rheini a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, roedd 30% yn derbyn gwasanaeth neu wedi derbyn gwasanaeth yn y gorffennol, dywedodd 72% o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw y byddent yn gwybod sut i gysylltu â ni neu ddod o hyd i wybodaeth am ein gwasanaethau. Nodwyd mai trwy wefan y cyngor (62%) neu dros y ffôn (27%) oedd y dulliau mwyaf poblogaidd o gael gwybodaeth.



NEGESEUON ALLWEDDOL AC ARGYMHELLION

Mae'r tablau canlynol yn nodi'r negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad, camau a argymhellir ac addasiadau cyffredinol eraill.

Derbyniwyd yr holl adborth yn ddiolchgar ac fe'i hystyriwyd yn ofalus; fodd bynnag ni fu'n bosibl cynnwys yr holl sylwadau yn yr adroddiad gan eu bod yn cyfeirio at faterion penodol iawn neu unigolion. Yn yr achosion hyn, rydym wedi rhannu'r sylwadau â'r meysydd gwasanaeth perthnasol i'w hystyried a gweithredu arnynt yn ôl yr angen.

Negeseuon Allweddol	Camau a Argymhellir
Fformat a rhwyddineb gweld yr adroddiad	
<p>Ar y cyfan, oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn barnu bod yr adroddiad yn ddiddorol, yn wybodus, yn glir/rhywfaint yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.</p> <p>Isod mae enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r adroddiad yn esbonio'n glir beth sy'n digwydd i blant ac oedolion.• Roedd yr adroddiad yn wybodus iawn ac yn berthnasol i bobl ifanc.• Rwy'n credu bod yr adroddiad yn ddefnyddiol i fi a'r bobl yma.• Roedd yn wybodus iawn ac yn berthnasol i bobl ifanc.• Da iawn a llawn dealltwriaeth.• Roedd yr adroddiad yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall. Er nad oes profiadau personol o wasanaethau cymdeithasol, roedd yr adroddiad yn ddiddorol a nawr rwy'n gwybod sut i gael mynediad at bethau pe byddai angen.• Mae'r adroddiad yn cynnwys llawer o wybodaeth a byddai'n ateb unrhyw gwestiynau oedd gen i.• Roedd y pynciau'n eithaf anodd eu deall ond rwy'n eu deall nhw ac yn cytuno gyda'r cyflwyniad.• Gwneud y cwestiwn yn fwy cyfeillgar i bobl ifanc.• Adroddiad i fod yn fwy priodol i oedran pobl ifanc.	<p>Nodi</p> <p>Mewn ymgynghoriad Fforwm Ieuentid Bwrdeistref Merthyr Tudful i ddatblygu fersiwn pobl ifanc o'r adroddiad terfynol. Yn ogystal, wrth gynllunio datblygiad Adroddiadau Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor yn y dyfodol at ddibenion ymgynghori; ystyried cynhyrchu fersiwn i bobl ifanc o'r adroddiad drafft a'r holiadur. <u>Nodwch</u>: Cafwyd awgrym fel rhan o waith ychwanegol y Fforwm Ieuentid i gynhyrchu fersiwn i bobl ifanc o'r adroddiad.</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Wedi'i gyflwyno'n dda ac yn hawdd ei ddeall a'i ddilyn. • Nid yw'n cynnwys digon o fanylder. Mae angen iddo fod yn llawer manylach yn hytrach na bod yn gyfres o ddatganiadau cyffredinol wedi'u geirio'n ofalus. Un llinell yn unig oedd yn cyfeirio at ddementia. 	<p>Nodi.</p> <p>Nid yw hyn yn adroddiad technegol, yn hytrach yn ddogfen a ddyluniwyd i'w bigo i fyny, ei ddarllen a'i ddeall gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw'n cynnwys felly llawr o wybodaeth fanwl. Fodd bynnag, rydym yn eithaf bodlon darparu hyn ar gais ac rydym wedi nodi'r diffyg gwybodaeth am ddementia a ganfyddir.</p>
<p>Adborth ar brofiad personol o ansawdd y gwasanaeth</p>	
<p>Fel gweithiwr cymorth rydw i wedi cael profiad o waith ardderchog gan rai o'r gweithwyr cymdeithasol ym Merthyr. Bu rhai achosion o deuluoedd ddim yn cael eu gweld am sawl mis ar Blant Mewn Angen. Mae hyn yn peri problemau iddyn nhw gael mynediad at wasanaethau CAY. Mae'n sicr angen rhagor o waith ar bontio rhwng cynlluniau ac effeithlonrwydd cau achosion. Mae llawer o achosion yn llusgo.</p>	<p>Mae hyn yn codi materion pwysig i ni o ran ein gallu i ymateb i achosion lefel is. Bydd hyn yn cael ei rannu â'r maes gwasanaeth a fydd yn gweithredu ar hyn.</p>
<p>Roedd y gŵr amser hir (3 mis) yn yr ysbyty oherwydd amser i drefnu'i anghenion gartref. 1 mis am un peth wedyn mis arall ar gyfer rhywbeth arall. Methu â delio â dau beth ar un tro, aros tan y mis nesaf. Rhaid bod hyn wedi costio'r GIG i'w gadw yn yr ysbyty.</p>	<p>Er ei fod yn anodd dweud yn yr achos hwn, nid yw pob achos o oedi cyn gadael yr ysbyty oherwydd problemau darparu pecyn gofal. Mae rhai yn ymwneud â phethau eraill megis addasu'r cartref a chymorth cymunedol gan wasanaethau eraill. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei rannu â'r maes gwasanaeth perthnasol i weithredu arno'n briodol.</p>
<p>Mae fy mab yn mynd i Barc Iechyd Keir Hardie ac mae'r staff yn ardderchog ac yn gofalu amdano fel aelod o'r teulu, fodd bynnag mae'r uned yn fach o gymharu â Sandbrook.</p>	<p>Mae hyn yn codi pwynt pwysig y mae'r gwasanaeth yn ei ystyried.</p>
<p>Mae gweithiwr cymdeithasol fy mab yn dda mae'n gefnogol iawn.</p>	
<p>Mae ein gweithiwr cymdeithasol yn ardderchog ond yn anffodus mae'r rheolaeth yn warthus. Rwy'n cael 1.15 awr yr wythnos o daliadau uniongyrchol ar gyfer fy mab anabl heb gymorth teuluol arall!</p>	<p>Rhannu â'r maes gwasanaeth perthnasol i'w ystyried a gweithredu arno'n briodol.</p>
<p>Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol ddealltwriaeth deg o'r hyn y mae'i angen ar bobl ifanc, fodd bynnag nid pob tro'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dydyn nhw ddim chwaith yn gwrando go iawn ar bobl ifanc.</p>	<p>Rydym yn gwneud ein gorau i wrando ar blant a phobl ifanc a chlywed beth maen nhw'n ei ddweud ac rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella hyn.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwasanaethau gwirfoddol yn gweithredu'n fwy ac yn gyflymach na'r gwasanaethau cymdeithasol. • Mae'r broses yn hir i'r gwasanaethau gael eu darparu. • Gormod o weithwyr cymdeithasol gwahanol (dim cysondeb) • Mae llwybrau'n fwy rhagweithiol ac yn gweithio'n gyflymach ac yn arwain at ganlyniadau. • Dydw i ddim yn credu bod digon o sylfeini a 	<p>Bydd yr holl bwyntiau pwysig hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r trafodaethau parhaus â Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Merthyr Tudful.</p>

<p>chymorth i grwpiau oedran penodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n cymryd gormod o amser i weithredu. • Ddim yn dda ar gyfer teuluoedd – ddim yn gwrandao ar y ddwy ochr. • Dyw'r wybodaeth a roddir ddim yn ddigon manwl. • Mae angen mwy o gyfleoedd amrywiol i bobl ifanc. • Mae angen i'r gwasanaeth addysg wrando ar y rheini sy'n gwybod am addysg. Addysg dda nid trydyddol. • Mae angen gwella diogelwch cymunedol. • Cyfleusterau dan do i bobl ifanc pan fo'n glawio (nid chwaraeon). • Mae angen tai o safon ym Merthyr. • Mae angen mwy o dai un gwely i bobl ifanc sengl (digartref ac sy'n gadael gofal). 	
<p>Ydy'r adroddiad yn adlewyrchu profiad personol</p>	
<p>Pan ofynnwyd a yw'r adroddiad yn adlewyrchu profiad personol o'r gwasanaethau cymdeithasol, o'r ymatebion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 18% o'r farn bod yr adroddiad yn adlewyrchu'u profiad o'r gwasanaethau cymdeithasol; • Dywedodd 64% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno; • Roedd 14% yn anghytuno/anghytuno'n gryf. 	<p>Er gwybodaeth.</p>
<p>Nid yw hen bobl sy'n iach ar hyn o bryd yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt a sut i'w gael pan fo angen. Byddai pamffled yn nodi'r hyn sydd ar gael a sut i'w gael yn amhrisiadwy.</p>	<p>Rhannu sylwadau â'r gwasanaethau perthnasol i'w hystyried. Mae un neu ddau o sylwadau sy'n ymwneud â gwybodaeth/mynediad yn yr adborth a gafwyd. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o gynllun gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.</p>
<p>Nid yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwasanaethu digon.</p>	<p>Nodi.</p>
<p>Pobl gefnogol a gofalgwr iawn sy'n gwrandao ar y cymorth sydd ei angen.</p>	<p>Nodi.</p>
<p>Doedd hi ddim yn dda pan ddechreuais ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond mae wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.</p>	<p>Nodi.</p>
<p>Roedd y gwasanaeth ges i yn dda iawn. Gwnaed popeth i wneud fy mywyd yn haws. Gwnes i werthfawrogi popeth gafodd ei wneud.</p>	<p>Nodi.</p>
<p>Adborth ar y cryfderau/gwendidau a nodir yn yr adroddiad.</p>	
<p>Rwy'n cytuno gyda'r gwendidau. Rwy'n teimlo bod angen i S&W's gau achosion Plant Mewn Angen yn gynt oherwydd bod yr achosion hyn yn aml wedi'u rheoli'n wael. Dydy llawer o deuluoedd ddim yn cael eu gweld yn aml ac yn cael eu gadael i ebargofiant heb lawer/ddim</p>	<p>Mae hyn yn codi materion pwysig i ni o ran gallu i ymateb i achosion lefel is. Bydd hyn yn cael ei rannu â'r maes gwasanaeth a fydd yn gweithredu ar hyn.</p>

cefnogaeth SS ond gyda'r teulu'n parhau i fod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.	
Adborth ar flaenoriaethau 2015 / 2016	
Anghytuno: Dydw i ddim yn credu y dylai rhyddhau hen bobl o'r ysbyty fod mor hawdd ac y dylid cynnal gwiriadau manwl i sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r ysbyty ac efallai cael caniatâd perthynas cyn eu hanfon i'r ysbyty neu eu rhyddhau o'r ysbyty.	Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n cydweithwyr iechyd i sicrhau bod rhywun yn cael pecyn cefnogaeth priodol pan gaiff ei ryddhau o'r ysbyty. Ni chaiff unrhyw berson hŷn ei ryddhau o'r ysbyty heb ystyriaeth fanwl iawn o'i anghenion. Mae angen i ni fod yn ofalus iawn wrth sicrhau ein bod yn dilyn dymuniadau'r person hŷn lle bo'n bosibl, hyd yn oed os ydyn nhw'n wahanol i dymuniadau'r teulu. Rydym yn gwybod bod hyn yn gallu peri anawsterau.
Anghytuno: Rwy'n credu y dylai'r blaenoriaethau fod peidio â chaniatáu rhyddhau person boed hen neu ifanc. Rwy'n credu y dylid cynnal ymchwiliad llawn oherwydd gellir bod problem nad ydych yn gwybod amdani.	Gweler uchod.
Mae angen i ddarpariaeth ar gyfer anghenion gofalwyr yn ogystal ag asesiad ohonynt fod yn flaenoriaeth. Byddai'n dda nodi ffyrdd penodol y bydd gofal i ofalwyr ar gael. Yn yr hirdymor bydd cadw Gofalwyr yn iach yn arbed arian i'r Cyngor. Mae angen sylw difrifol i ddarparu ar gyfer anghenion Gofalwyr ac i wrando arnyh nhw a pharchu eu sefyllfa. Mae angen i ddiffiniad Gofalwyr gynnwys POB Gofalwr. Er ei bod yn gywir bod sefydliadau penodol yn darparu gwasanaethau i Ofalwyr penodol, mae anghenion y mwyafrif o'r Gofalwyr yn cael eu hanwybyddu. Nododd yr adroddiad bod 900 o Ofalwyr – mae llawer mwy heb eu cyfrif.	Rydym yn cydnabod rôl hollbwysig gofalwyr mewn cefnogi pobl sy'n agored i niwed ac mae'r Cyngor yn helpu i ariannu ystod eang o wasanaethau cefnogi. Mae'r adroddiad gwasanaethau cymdeithasol hwn yn canolbwyntio ar y rheini rydym yn ymwneud â'u perthnasau ac felly'n cynrychioli ffracsiwn yn unig o'r gofalwyr sy'n bodoli. Byddwn yn ystyried sut allwn esbonio gwaith ehangach y Rhwydwaith Gofalwyr yn well mewn adroddiadau yn y dyfodol.
Sylwadau eraill	
Cydnabyddiaeth bod ychydig o wasanaethau i ofalwyr ac eithrio'r sefydliadau sy'n ymdrin â gofalwyr pobl â chyflyrau penodol. Mae angen cadw rhestr o anghenion gofalwyr sydd ddim yn cael eu diwallu.	Dyma rywbeth rydym yn gweithio arni ar hyn o bryd fel rhan o weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).
Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfarfodydd (Diogelu Plant a Phlant mewn Angen). Defnyddio gwasanaethau sydd eisoes yn gweithio gyda'r bobl ifanc i weithredu fel eiriolwr. E.e. mewn sefyllfa cam-drin domestig efallai na fydd y person ifanc eisiau bod yn yr un ystafell â'r person sydd wedi cam-drin ond eu bod eisiau dweud eu dweud – Defnyddio DART / CREA8 / Rockets & Comets mewn SMT i gael eu safbwyntiau. Os ydyn nhw eisoes yn gweithio gyda'n gwasanaethau mae'n debygol ein bod eisoes yn gwybod safbwyntiau ond dyw'r cwestiynau ddim pob tro'n cael eu gofyn i ni. E.e. efallai cyfarfod â'r gweithiwr	Mae'r rhain yn bwyntiau gwerthfawr a rannwyd â'r gwasanaeth perthnasol i'w hystyried a gweithredu arnynt.

cymdeithasol/person ifanc a gweithiwr Crea8 i rannu safbwyntiau i gefnogi'r person ifanc.	
Gwnes i fwynhau'r sesiwn. Rwy'n fwy ymwybodol ac yn gwybod mwy am y gwahanol wasanaethau sydd ar gael.	Nodi.
Da yw gweld bod Merthyr yn cyrraedd targedau ac yn rhagori arnyn nhw yn y rhan fwyaf o feysydd, ac eithrio yn achos adolygiadau gwasanaethau unigol ac yn falch i weld y bydd hwn yn un o'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae'n bryder bod nifer yr oedolion sy'n agored i niwed wedi cynyddu 100% dros y 3 blynedd diwethaf ond falch gweld bod Merthyr wedi cynyddi nifer y staff sy'n gweithio yn yr adran Oedolion Mewn Perygl.	Nodi.
Mae'r cyflwyniad cyffredinol a'r adroddiad yn dangos bod y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i wneud cynnydd a helpu'r rheini y mae angen eu helpu. Fodd bynnag, byddwn i'n awgrymu mai ffordd o gael mwy o bobl yn rhagweithiol yn y broses gwasanaethau cymdeithasol, fyddai gwneud eich hunain yn haws dod atoch yn hytrach na chyfleu cymaint o anobaith. Gellir gwneud hyn trwy gyfathrebu mewn ffordd hwyliog yn y gymuned. E.e. digwyddiadau codi arian mewn ysgolion.	Nodi a rhannu â'r meysydd gwasanaeth perthnasol i'w ystyried yn y dyfodol fel rhan o unrhyw ddatblygiadau o ran cyfathrebu.
Mae'n ymddangos bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o wybodaeth ac y byddai'n ateb unrhyw gwestiynau sydd gen i.	Nodi.
Roedd yr adroddiad yn dda ac yn wybodus ond byddwn i wedi hoffi gwybod mwy am beth sy'n digwydd gyda gofalu'r ifanc.	Nodi.
Gwnes i fwynhau'r sesiwn. Rwy'n fwy ymwybodol ac yn gwybod mwy am y gwasanaethau amrywiol sydd ar gael.	Nodi.
Mae angen i ni ganolbwyntio ar lais plant a phobl ifanc – mae'r cyflwyniad diweddar i Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful yn ddechrau da ond rhaid adeiladu ar hyn.	Mae hyn yn bwynt pwysig a byddwn yn edrych arno fel rhan o'r trafodaethau parhaus â Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful.
Mwy rhyngweithiol.	Nodi.
Dylid clywed pobl ifanc.	Gweler sylwadau blaenorol.
Byddwn i wedi hoffi gwybod mwy am beth sy'n digwydd i bobl ddigartref.	Byddwn yn ystyried a ddylem gynnwys hyn yn ein hadroddiad y tro nesaf.
Yn yr adroddiad byddwn i'n hoffi gweld pam mae'r ystadegau'n isel a sut rydych yn gallu gweithio arnyn nhw.	Byddwn yn ystyried sut y gallwn esbonio rhai o'r ystadegau yn yr adroddiad yn well y tro nesaf.
Fy marn gyffredinol am y gwasanaethau cymdeithasol yw nad ydyn nhw'n gwybod yn iawn beth mae pobl ifanc ei eisiau a dydyn nhw ddim yn eu deall yn iawn. Rwy'n credu bod angen mwy o hyfforddiant arnyn nhw ar sut i fod yn ofalus wrth drin pobl a bod angen iddyn nhw sylweddoli eu bod nhw wedi bod trwy ddigon heb fod y	Mae hwn yn bwynt pwysig a byddwn yn edrych arno fel rhan o'r trafodaethau parhaus â Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful.

gwasanaethau cymdeithasol yn ychwanegu at y pwysau.	
Mae angen denu mwy o ofalwyr maeth ym Merthyr Tudful, lle bo'n ymarferol. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o gyfarfodydd priodol/cynadleddau plant ac ati.	Er bod yr adroddiad yn adlewyrchu cynnydd yn nifer y gofalwyr maeth ym Merthyr, mae angen sicrhau ein bod yn egluro bod hon yn ymgyrch barhaus. Fel gyda sylwadau blaenorol, byddwn yn rhannu hyn â'r gwasanaethau perthnasol ac yn sicrhau y caiff ei adlewyrchu yn yr adroddiad h.y. gwrandao a chyfranogi.
Byddai effaith newid gofalwyr cartref yn gyfan gwbl ar bobl sy'n agored i niwed yn gwneud yr adroddiad yn fwy gonest.	I'w nodi.
Byddwn i wedi hoffi gweld mwy o wybodaeth yn yr adroddiad am ryddhau o'r ysbyty.	Nodwyd.
Byddwn i'n hoffi gweld yn yr adroddiad sut i gysylltu â'r gwasanaeth ynglŷn ag unrhyw bryderon sydd gen i.	Ystyried ychwanegu rhifau cyswllt allweddol yn yr adran 'Cysylltu â Ni' h.y. swyddog oedolion/plant ar ddyletswydd, swyddog diogelu ac argyfwng ar ddyletswydd.
Mae'r gwasanaethau a gafwyd yn gyfyng ond maen nhw'n helpu ac yn cael eu cyflwyno'n broffesiynol. Fodd bynnag mae gormod o bwyslais ar wasanaethau gwirfoddol yn galluogi'r awdurdod i ddyrannu'i gyfrifoldebau i eraill.	Nodi.
Mae gwasanaethau gwirfoddol yn ardderchog ond dydyn nhw ddim yn ymestyn yn bell. Mae angen llawer mwy o fewnbwn gan weithwyr proffesiynol i oruchwylio gwelliannau.	Nodi a rhannu sylwadau fel y bo'n briodol.
Tudalen 4 (para 2) "Bydd nifer o heriau ... i gynnal neu wella ein perfformiad a chynnal arbedion." Nid yw hyn yn gwneud synnwyr oni bai ei fod yn ymwneud â lleihau gwasanaethau. Nid yw cynnal perfformiad wrth gynnal arbedion yn ddichonadwy; mae gwella wrth gynnal arbedion yn amhosibl. Mae angen cynyddu'r math o wasanaethau a gynigir fel y mae nifer y bobl sydd eu hangen wedi cynyddu. Blaenoriaeth!!	Mae hwn yn bwynt hollbwysig, rydym o hyd yn edrych am ffyrdd o fod yn fwy effeithlon, fodd bynnag mae hefyd disgwyl i ni gynnal neu wella ansawdd ein gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned ac i weithio mewn partneriaeth ag ystod gyfan o ddarparwyr gwasanaeth. Hyd yn hyn bu'n bosibl cyflawni'r ddau, fodd bynnag bydd hyn yn her yn y dyfodol.
Mae'r cyflwyniad yn rhybuddio am gyfyngiadau ariannol a phwyslais newydd ar ddarparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed/anghenus. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cyfeirio mewn amryw lefydd at ddewis y cyngor i ymyrryd yn gynnar i atal problemau teulu rhag gwaethygu. Er fy mod yn derbyn bod y ddau beth yn themâu pwysig yn y Ddeddf newydd a'r sefyllfa ariannol bresennol, efallai hoffai'r Cyfarwyddwr nodi a yw hyn wedi'i esbonio'n ddigonol yn yr adroddiad.	Ystyriodd y Cyfarwyddwr yr adborth ac addasu'r adroddiad yn briodol.

Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r adborth a gafwyd yn dangos bod ein hadroddiad yn deg ac yn gytbwys, yn ddiddorol i lawer ac wedi'i ysgrifennu'n glir i'r rhan fwyaf o gynulleidfa oedd. Roedd adborth gan bobl ifanc ar rwyddineb

gweld/cynnwys yr adroddiad yn gymysg. Er i nifer ei gael yn berthnasol ac yn hawdd ei ddeall, amlygodd adborth o'r gweithdy grŵp ychwanegol a gynhaliwyd gyda Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful nad oedd hyn yn wir i bawb. Ein bwriad yw gwneud yr adroddiad a'r broses ymgynghori mor rhwydd â phosibl i ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae angen felly i ni wella ymhellach trwy wneud yr adroddiad yn fwy darllenadwy ac o ddiddordeb i nifer fwy o bobl ifanc.

Ychydig iawn o wrthwynebiad a gafwyd i'r cryfderau/gwendidau a meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad ac roedd y mwyafrif yn cytuno â'n blaenoriaethau.

Daeth y mwyafrif o sylwadau ychwanegol gan bobl ifanc a ffynonellau dienw. Er y cawsom ymatebion gan nifer o ofalwyr; ychydig iawn rannodd eu profiadau neu safbwyntiau.

- Trafod adborth ac argymhellion a gafwyd â'r Cyfarwyddwr a swyddogion allweddol eraill. Cytuno ar newidiadau i'r adroddiad a'i ddiweddarau'n briodol.
- Adolygiad a chymeradwyaeth derfynol gan y Cyfarwyddwr.
- Cyflwyno'r adroddiad i Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru erbyn 30 Mehefin 2015 fan pellaf.
- Cyhoeddi'r adroddiad ar y wefan ynghyd â'r ddogfen hon yn gynnar ym mis Awst 2015.